



Arolygiaeth  
Prawf EF

Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuencid yng

# **Nghasnewydd**

---

Arolygiaeth Prawf EF, Gorffennaf 2024

# Cynnwys

<b>Rhagair</b> .....	<b>3</b>
<b>Sgoriau</b> .....	<b>4</b>
<b>Argymhellion</b> .....	<b>5</b>
<b>Cefndir</b> .....	<b>6</b>
<b>Parth un: Darpariaeth sefydliadol</b> .....	<b>7</b>
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth .....	7
1.2. Staff .....	9
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau .....	11
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau .....	13
<b>Parth dau: Datrysiadau yn y llys</b> .....	<b>16</b>
2.1. Asesiad .....	16
2.2. Cynllunio .....	17
2.3. Gweithredu a chyflawni .....	18
2.4. Adolygu .....	19
<b>Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys</b> .....	<b>20</b>
3.1. Asesiad .....	20
3.2. Cynllunio .....	21
3.3. Gweithredu a chyflawni .....	22
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys .....	23
<b>4.1. Ailsefydlu</b> .....	<b>25</b>
4.1. Y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu .....	25
<b>Rhagor o wybodaeth</b> .....	<b>27</b>

## Diolchiadau

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EF Caren Jones, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.

## Rôl Arolygiaeth Prawf EF

Arolygiaeth Prawf EF yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence) neu anfonwch neges e-bost at [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

## Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf EF  
Llawr 1af Canolfan Llysoedd  
Sifil  
1 Bridge Street West  
Manceinion  
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter  
[@hmiprobation](https://twitter.com/hmiprobation)

ISBN: 978-1-916621-37-4

© **Hawlfraint y Goron 2024**

## Rhagair

---

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o'r gwasanaeth troseddau ieuenctid (GCI). Rydym wedi arolygu a sgorio GCI Casnewydd mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd gwaith datrysiadau y tu allan i'r llys.

Yn gyffredinol, mae GCI Casnewydd yn cael sgôr 'Da'. Bu i ni hefyd arolygu ansawdd y ddarpariaeth a'r polisi ailsefydlu, a oedd yn cael ei ystyried yn 'Dda' ar wahân.


Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Casnewydd wedi wynebu heriau sylweddol, gyda newidiadau yn y trefniadau arwain, colli adeilad pwrpasol, absenoldeb gweithwyr arbenigol, a llwyth gwaith trwm. Yn ystod y 12 mis diwethaf, dan arweiniad tîm arwain y GCI, bu cyfnod o bontio pan fu i'r tîm ailadeiladu ei hunaniaeth a'i ymdeimlad o bwrpas. Mae'n glod i'r tîm ei fod, er gwaethaf yr amser anodd, wedi rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau effeithiol i blant.

Mae tîm arwain y GCI yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a thryloywder ac mae ganddo ddealltwriaeth o'r meysydd y mae angen eu gwella. Hyd at yn ddiweddar, roedd wedi bod yn llywio'r gwasanaeth, a bu diffyg arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol gan fwrdd partneriaeth strategol y GCI. Roedd trefniadau cadeirio'r bwrdd yn anghyson ac roedd y cyfraniadau gan bartneriaid statudol ac allweddol yn amrywio. Dylem weld gwelliannau sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r GCI yn sgil penodi cadeirydd newydd yn ddiweddar, ac ar ôl i'r partneriaid cywir ail ymaelodi. Mae angen i'r bwrdd a'r bartneriaeth ddatblygu eu dealltwriaeth o broffil plant y GCI ar frys, gan ganolbwyntio'n benodol ar grwpiau sy'n cael eu gorgynrychioli, a rhaid iddynt ddarparu arweiniad strategol a gweithredol i fwrw ymlaen â strategaeth anghymesuredd y GCI. Mae angen i'r trefniadau llywodraethu newydd fod yn weladwy a rhoi sicrwydd bod y GCI yn cefnogi'r prosesau i gael adeiladau priodol.

Mae gan GCI Casnewydd arlwy ataliol cryf i gyfeirio plant oddi wrth y system gyfiawnder ffurfiol. Mae gan blant fynediad cyfartal at yr ystod o wasanaethau, a gwelsom gyfres drawiadol o ymyriadau. Mae gan y trefniadau partneriaeth gryfderau ond nid oes ganddynt gynrychiolaeth statudol hanfodol gan swyddog prawf a gweithiwr addysg. Rhaid rhoi sylw i'r bylchau hyn. Mae angen i'r bartneriaeth hefyd fod yn sicr bod y gwasanaethau y mae'n eu darparu yn cael eu gwerthuso ac yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant.

Mae gan GCI Casnewydd ganlyniadau uchelgeisiol ar gyfer ei blant. Gwelsom ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau wedi'u gwreiddio ynghyd ag agwedd ragweithiol at gefnogi plant i ymatal rhag troseddu. Mae prosesau sicrhau ansawdd wedi cael eu gwella'n ddiweddar ac mae'r GCI yn cydnabod bod angen sicrhau bod y gwaith o adolygu mewn achosion ar ôl y llys yn ddigonol, yn enwedig mewn perthynas â chadw plant a phobl eraill yn ddiogel. Gwelsom gryfderau yn yr ymarfer gyda datrysiadau y tu allan i'r llys, ac roedd yn braf gweld ymrwymiad i wreiddio a gwerthuso'r polisi a'r ddarpariaeth datrysiadau y tu allan i'r llys a ddiwygiwyd yn ddiweddar.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud nifer o argymhellion a fydd yn galluogi GCI Casnewydd i adeiladu ar ei gryfderau presennol a gwneud gwelliannau pwysig yn y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau i blant.



**Martin Jones**

Prif Arolygydd Prawf EF

## Sgoriau

**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Casnewydd**  
Dechreuodd y gwaith maes ym mis Chwefror 2024

**Sgôr**

**19/36**

**Sgôr gyffredinol**

**Da**



### 1. Darpariaeth sefydliadol

1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth

**Angen gwella**



1.2 Staff

**Da**



1.3 Partneriaethau a gwasanaethau

**Angen gwella**



1.4 Gwybodaeth a chyfleusterau

**Angen gwella**



### 2. Datrysiadau yn y llys

2.1 Asesiad

**Da**



2.2 Cynllunio

**Da**



2.3 Gweithredu a chyflawni

**Angen gwella**



2.4 Adolygu

**Annigonol**



### 3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

3.1 Asesiad

**Da**



3.2 Cynllunio

**Rhagorol**



3.3 Gweithredu a chyflawni

**Rhagorol**



3.4 Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys

**Angen gwella**



### 4. Ailsefydlu<sup>1</sup>

4.1 Y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu

**Da**



<sup>1</sup> Nid yw'r sgôr ar gyfer ailsefydlu yn dylanwadu ar sgôr gyffredinol y GCI.

## Argymhellion

---

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud deg o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid yng Nghasnewydd. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

### **Dylai Bwrdd Partneriaeth Strategol Cyfiawnder Ieuenctid Casnewydd wneud y canlynol:**

1. datblygu trefniadau cadeirio cyson a chydlynol, sy'n sicrhau presenoldeb a chyfranogiad holl aelodau'r bwrdd
2. gwella'r prosesau dadansoddi data i hyrwyddo dealltwriaeth gyson o broffil plant y GCI, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu peirianweithiau effeithiol i gofnodi, dadansoddi a lliniaru anghymesuredd a gorgynrychiolaeth yn y gwasanaeth
3. sicrhau bod gan y GCI adnoddau a'i fod mewn sefyllfa dda i ddarparu gwaith o ansawdd uchel gyda phlant, gan gynnwys sicrhau bod ganddo swyddog prawf, gweithiwr addysg, a'i fod yn arwain y prosesau i gael adeilad priodol er mwyn i'r GCI wneud ei waith
4. gwella'r berthynas rhwng y bwrdd ac ymarferwyr y GCI i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gyffredin o ddylanwad y blaenoriaethau strategol ar y ddarpariaeth weithredol
5. gwerthuso effaith ymyriadau a gwasanaethau'r GCI, gan sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol i gadw plant ac unigolion eraill yn ddiogel.

### **Dylai tîm arwain Cyfiawnder Ieuenctid Casnewydd wneud y canlynol:**

6. cwblhau adolygiad strategol o feysydd cyfrifoldeb y tîm arwain, i sicrhau bod y llwythi gwaith, y llinellau atebolrwydd a disgwyliadau'r rheolwyr yn rhesymol, a bod gan y tîm arwain ddigon o gapasiti i gwblhau ei rolau i safon uchel bob amser
7. sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu goruchwyllo'n effeithiol, gan gynnwys hyfforddi, cefnogi a monitro pob gwirfoddolwr.

### **Dylai GCI Casnewydd wneud y canlynol:**

8. sicrhau bod ymarferwyr yn deall nodweddion gwarchoddedig plant yn eu holl amrywiaeth, yn ystyried sut mae'r rhain yn effeithio ar hunaniaeth a phrofiad bywyd plant a'u bod yn teimlo'n hyderus i gael sgysiau gyda phlant am eu hanghenion oherwydd eu hamrywiaeth
9. sefydlu prosesau ar gyfer goruchwyllo'r trefniadau rheoli risg a diogelwch a sicrhau ansawdd, yn enwedig ar gyfer adolygu achosion ar ôl y llys, er mwyn sicrhau bod gwaith effeithiol yn mynd rhagddo i gadw plant a phobl eraill yn ddiogel
10. cofnodi lleisiau plant a'u rhieni neu'u gofalwyr yn gyson i lywio'r gwaith o adolygu'r polisïau, y prosesau a'r ddarpariaeth.

## Cefndir

---

Fe wnaethom y gwaith maes yng Ngwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Casnewydd dros gyfnod o wythnos, gan ddechrau ar 26 Chwefror 2024. Fe wnaethom archwilio achosion lle dechreuodd y ddedfryd neu'r drwydded, lle cyflawnwyd datrysiadau y tu allan i'r llys, a lle dedfrydwyd neu lle rhyddhawyd achosion ailsefydlu rhwng 27 Chwefror 2023 a 22 Rhagfyr 2023. Fe wnaethom hefyd gynnal 15 cyfweiliad gyda rheolwyr achosion neu eu rheolwyr llinell.

Yn ne-ddwyrain Cymru, mae gan sir Casnewydd boblogaeth o 159,658, a phlant rhwng 10 a 17 oed sydd i gyfrif am 10 y cant o gyfanswm y boblogaeth. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae poblogaeth Casnewydd wedi cynyddu 9.5 y cant, a dyma felly'r awdurdod lleol sydd wedi tyfu fwyaf yng Nghymru. Mae Cyfrifiad 2021 yn nodi bod 7.5 y cant o drigolion Casnewydd yn siaradwyr Cymraeg.

Mae GCI Casnewydd yn bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n rhan o adran gwasanaethau plant Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'r GCI yn cael ei arwain gan bennaeth y gwasanaeth sy'n adrodd wrth bennaeth y gwasanaethau plant a phobl ifanc a chyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol. Pennaeth gwasanaeth y GCI sy'n gyfrifol am y GCI, tri thîm plant sy'n derbyn gofal, a thîm arall sy'n cefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae rheolwr tîm y GCI yn goruchwyllo'r gwaith atal a hefyd brosiect Turnaround, ochr yn ochr â'r timau statudol a datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae gan y ddau dîm ddirprwy reolwyr tîm dynodedig, a cheir hefyd uwch ymarferydd sy'n darparu goruchwyliaeth er mwyn sicrhau ansawdd. Bwrdd partneriaeth strategol y GCI sy'n llywodraethu'r GCI.

Mae'r GCI wedi gweld newidiadau mawr iawn dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'n glod i dîm presennol y GCI ei fod wedi gwneud gwaith datblygu sylweddol, gan esgor ar ymdeimlad o gyfeiriad o'r newydd. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r GCI wedi recriwtio gweithiwr dioddefwyr, ymarferydd camddefnyddio sylweddau, wedi creu rôl ailsefydlu ac ailintegreiddio, ac wedi cynyddu capasiti'r therapydd iaith a lleferydd. Mae gofyn cael swyddog prawf a gweithiwr addysg ar frys er mwyn bodloni rhwymedigaeth statudol y bartneriaeth.

Mae Heddlu Gwent yn gwasanaethu ardaloedd awdurdodau lleol Casnewydd, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen. Mae cydweithrediad cadarnhaol y GCI ag awdurdodau lleol eraill a Heddlu Gwent, wedi arwain at wneud adolygiad cynhwysfawr yn ddiweddar o'r ddarpariaeth a'r polisi y tu allan i'r llys.

Yng Nghasnewydd, mae 14 y cant o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd ac o dras ethnig leiafrifol. Mae'r GCI wedi gweld nifer anghymesur o uchel o blant o'r grwpiau hyn yn cael eu rhybuddio neu eu dedfrydu gan y llys, y rhain sydd i gyfrif am 21 y cant o'r holl lwyth achosion. Mae plant sy'n derbyn gofal hefyd yn cael eu gorgynrychioli, y rhain sydd i gyfrif am 16 y cant o lwyth gwaith y GCI. Mae'r GCI wedi gweithio gyda'r bartneriaeth ehangach i ddatblygu Dulliau Adferol ar gyfer delio â Phlant sy'n Derbyn Gofal (RACLA).

Mae GCI Casnewydd yn ymgorffori egwyddorion allweddol Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru drwy hyrwyddo ymyrraeth gynnar a chyfeirio oddi wrth y system gyfiawnder. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn llwyth achosion y GCI gyda 58 y cant o blant yn cael eu cefnogi drwy raglenni ataliol, 29 y cant ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys a 13 y cant yn rhan o drefniant statudol. Pan gyhoeddwyd yr arolygiad, roedd y rhai a ddaeth i gysylltiad â GCI Casnewydd am y tro cyntaf a'r ffigurau aildroseddau yn is na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru a Lloegr.

## Parth un: Darpariaeth sefydliadol

Er mwyn arolygu'r ddarpariaeth sefydliadol, buom yn adolygu'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd y GCI ymlaen llaw, a chynaliasom 13 o gyfarfodydd, gan gynnwys gyda staff, gwirfoddolwyr, rheolwyr, aelodau'r bwrdd, a staff y bartneriaeth a'u rheolwyr.

Roedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

### 1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth



Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y timau troseddau ieuencid yn eu cefnogi a'u hyrwyddo i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.

Angen gwella

#### Cryfderau:

- Mae'r bwrdd yn realistig ac yn dryloyw, gan gydnabod bod angen gwneud cryn dipyn o waith i ddatblygu trefniadau llywodraethu'r GCI. Mae'r amcanion a nodir yng nghynllun gweithredu a gwella'r GCI yn cyd-fynd yn gyffredinol â chanfyddiadau'r arolygiad, gan roi sicrwydd bod y bwrdd a'r tîm arwain yn deall yr heriau presennol.
- Mae'r bwrdd a'r bartneriaeth ehangach yn deall, i raddau helaeth, weledigaeth, strategaeth a blaenoriaethau allweddol y GCI.
- Mae'r bwrdd wedi symleiddio ei aelodaeth i sicrhau bod partneriaid statudol ac allweddol, o'r lefel briodol, yn cael eu cynrychioli.
- Mae'r gwaith a wnaeth pennaeth y gwasanaeth i ddatblygu'r bwrdd wedi gwella'r cysylltiad â thîm arwain y GCI. Mae wedi sicrhau bod y rheolwr tîm yn aelod sefydlog, a bod staff gweithredol a rheolwyr yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i wneud cyflwyniadau mewn cyfarfodydd bwrdd.
- Mae tîm arwain y GCI wedi bod yn allweddol i siapio gwaith y gwasanaeth a'r bwrdd. Mae wedi sicrhau bod gwasanaethau effeithiol yn parhau i gael eu darparu i blant drwy gydol cyfnodau o newid mawr, ac adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau'r arolygiad o ddata achosion.
- Mae'r dyddiau diwygiedig ar gyfer sefydlu a datblygu aelodau'r bwrdd yn sicrhau bod yr aelodau'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gefnogi ac eiriol dros y GCI. Mae angen trosi'r ymrwymïadau newydd yn gamau gweithredu clir a'u rhoi ar waith i sicrhau bod y GCI yn gallu cyflwyno gwasanaeth o safon.
- Mae gan gynrychiolwyr y bwrdd gysylltiadau da â byrddau partneriaeth eraill ac mae ganddynt gysylltiadau effeithiol â'r ddarpariaeth i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r GCI.
- Mae atal ac ymyrryd yn fuan yn flaenoriaethau. Mae'r GCI a'i bartneriaeth wedi datblygu arlwy cydlynol i atal plant rhag dod yn rhan o'r system gyfiawnder.
- Ceir ymrwymiad i sicrhau bod llais y plentyn yn cael gwrandawriad ym mhob cyfarfod o'r bwrdd. Defnyddiwyd dulliau amrywiol i helpu'r aelodau i ddeall profiad bywyd plant, gan gynnwys gwahodd y plant i fod yn bresennol, rhoi adborth drwy fideo, ac ysgrifennu llythyr. Mae'r GCI wedi ymrwymo i greu bwrdd cysgodol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc.

## Meysydd i'w gwella:

- Mae'r GCI a'i staff wedi gweld newidiadau mawr iawn dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys colli adeiladau pwrpasol, atal gweithwyr arbenigol, a cholli ymdeimlad o gyfeiriad yn y gwasanaeth. Bu cyfnod o drawsnewid pan fu'r tîm yn ail-greu ei hunaniaeth, ac mae'r staff bellach yn teimlo'n obeithiol gydag ymdeimlad o gyfeiriad o'r newydd. Mae'r bwrdd wedi goruchwyllo'r newidiadau hollbwysig hyn, sydd wedi cael effaith negyddol ar y GCI, ac nid ydynt wedi ymyrryd. Mae angen i'r bwrdd fod yn rhagweithiol ac yn ddygn i amddiffyn a chefnogi'r GCI a'i waith o ddarparu gwasanaethau allweddol i blant.
- Mae'r bwrdd yn cydnabod yr anawsterau y mae wedi'u cael gyda threfniadau cadeirio anghyson. Mae cadeirydd newydd y bwrdd partneriaeth yn gyfarwyddwr strategol, a benodwyd oherwydd eu portffolio o fewn yr awdurdod lleol a'r bartneriaeth ehangach. Er mwyn sicrhau arweinyddiaeth effeithiol i'r bwrdd, mae angen cadeirydd sy'n gyson o ran ei bresenoldeb, ei gysylltiad a'i arweinyddiaeth.
- Mae angen i'r bwrdd sicrhau bod gan y GCI adnoddau staff priodol ar draws yr holl bartneriaid statudol, er enghraifft swyddog prawf a gweithiwr addysg penodol. Mae cynlluniau ar waith i roi sylw i'r absenoldebau hyn, ond mae angen bwrw ymlaen â hyn ar frys fel blaenoriaeth.
- Mae gan y GCI strategaeth a chynllun gweithredu anghymesured, er y cydnabyddir ei bod yn ddyddiau cynnar ar y rhain a bod gofyn i fwrdd y bartneriaeth lywio a datblygu'r rhain yn strategol. Dylid dadansoddi proffil y plant er mwyn deall gorgynrychiolaeth ac anghymesured ym mhoblogaeth y GCI.
- Mae angen i'r bwrdd gael mwy o oruchwyliaeth strategol a chwarae rhan fwy gweithredol mewn meysydd allweddol o ddarpariaeth y GCI. Mae wedi gweld cyfleoedd i fod yn rhan o brosesau sicrhau ansawdd y GCI, ac mae sawl aelod yn awyddus i arsylwi gweithgareddau'r GCI.
- Er y gwahoddir un o ymarferwyr y GCI i fynychu pob cyfarfod bwrdd partneriaeth strategol, mae angen datblygu'r cysylltedd rhwng y GCI ac aelodau'r bwrdd y tu allan i'r fforwm hwn. Mae angen i'r GCI sicrhau bod y bwrdd yn weladwy ac yn ymatebol i'r meysydd pryder allweddol, fel cefnogi'r gwaith o sicrhau adeiladau pwrpasol i gefnogi plant neu swyddfa briodol i wneud ei waith.
- Mae angen i'r bwrdd gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i gofrestr risgiau presennol i sicrhau ei fod yn cydnabod, yn monitro ac yn lliniaru'r risgiau posibl.
- Ceir pryderon sylweddol ynghylch y prosesau diogelwch a rheoli risg ar gyfer gwirfoddolwyr a'r plant y maent yn gweithio gyda nhw. Mae angen adolygu cyfrifoldebau arwain gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn cael eu goruchwyllo a'u cefnogi'n briodol. Mae angen i'r gwirfoddolwyr gael cyfleoedd i gwrdd â bwrdd y bartneriaeth a chyfrannu at weledigaeth a strategaeth y GCI.



## 1.2. Staff



Mae staff yn y Timau Troseddau Ieuencid wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn.

Da

### Cryfderau:

- Mae'r staff yn llawn cymhelliant, yn frwdfrydig ac yn hyrwyddo canlyniadau uchelgeisiol i bob plentyn.
- Mae tîm arwain y GCI yn fyfyrion ac yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sefyllfa bresennol y gwasanaeth. Mae gan bennaeth y gwasanaeth agwedd ragweithiol at ddysgu a datblygu, ac mae wedi cysylltu â'r sector i wella eu dealltwriaeth o ymarfer effeithiol er mwyn gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau.
- Mae'r staff yn derbyn goruchwyliaeth rheoli achosion reolaidd ac yn benderfynol o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Canfu'r arolygwyr fod yr oruchwyliaeth a ddarperir gan y fforymau rheoli risgiau, dan gadeiryddiaeth tîm arwain y GCI, wedi gwella ansawdd y gwaith gyda phlant.
- Yn y sampl o achosion a arolygwyd, canfu'r arolygwyr fod y rheolwyr wedi goruchwyllo saith allan o'r wyth achos y tu allan i'r llys a phedwar o'r chwe achos ar ôl y llys yn ddigonol.
- Mae llwythi gwaith y rhan fwyaf o'r staff yn rhesymol ar ôl adolygu'r arlwy ataliol a'r trefniadau recriwtio staff.
- Caiff dyraniadau eu hystyried yn ofalus drwy roi ystyriaeth i anghenion y plentyn, sgiliau'r staff a'r capasiti.
- Mae ymarferwyr yn manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a hyfforddi. Mae'r GCI yn gwerthfawrogi diwylliant o wella'n barhaus gyda chyfleoedd i fynd ar secondiadau a gwneud y radd mewn gwaith cymdeithasol.
- Mae diogelwch corfforol staff yn cael ei wella gan y trefniadau ar gyfer gweithio ar eu pen eu hunain. Mae diogelwch emosiynol staff wedi cael ei brofi drwy'r newidiadau sylweddol a wnaed yn eu gwasanaeth. Mae'n ganmoladwy bod morâl yn dal i fod yn uchel, ac mae cadernid y staff a'r rheolwyr yn drawiadol.

### Meysydd i'w gwella:

- Mae angen i dîm arwain y GCI gwblhau adolygiad strategol o feysydd eu cyfrifoldebau, i sicrhau bod y llwythi gwaith, y llinellau atebolrwydd a disgwyliaidau'r rheolwyr yn rhesymol, a bod gan y tîm arwain ddigon o gapasiti i gwblhau ei rolau i safon uchel bob amser.
- Mae'r GCI wedi gwreiddio dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma. Nid yw goruchwyliaeth glinigol ar gael i'r rhan fwyaf o staff ond byddai'n fuddiol i gefnogi ymarferwyr yn eu gwaith gyda phlant.
- Mae angen i'r GCI integreiddio gwirfoddolwyr yn y gwasanaeth, gan roi iddynt gyfleoedd i fynychu cyfarfodydd tîm, hyfforddiant a goruchwyliaeth.
- Mae angen i'r GCI sicrhau bod yr holl staff yn cael eu harfarnu a bod pob gwirfoddolwr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn adolygiadau blynyddol.

- Mae'r trefniadau cynefino wedi cael eu hadolygu a'u cryfhau ond mae angen eu gwreiddio er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd newydd yn deall ei rolau a'i gyfrifoldebau'n llawn.
- Mae angen rhoi blaenoriaeth i recriwtio i swyddi gwag i sicrhau bod llwythi gwaith yn dal i fod yn rhesymol.
- Nid yw'r gweithlu ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r boblogaeth leol na llwyth achosion y GCI; dylai ymgyrchoedd recriwtio i'r dyfodol annog ymgeiswyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

---

## 1.3. Partneriaethau a gwasanaethau



Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn.

Angen gwella

### Cryfderau:

- Cafodd gwasanaeth Turnaround Casnewydd ei greu ym mis Rhagfyr 2022 gan ganolbwyntio ar ymyrryd yn fuan ac atal. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu dros amser, gan arwain at sefydlu panel dyrannu aml-asiantaeth sy'n cael ei arwain gan y GCI. Y nod yw cynnig y cymorth iawn i blentyn ar yr amser iawn er mwyn osgoi gorfod ei uwch-gyfeirio i ymyriad ffurfiol gan y GCI.
- Ceir perthynas strategol a gweithredol gref rhwng y GCI a gofal cymdeithasol plant. Mae pennaeth y gwasanaeth yn goruchwyllo llwybrau'r GCI a llwybrau plant sy'n derbyn gofal, ac o'r herwydd mae'n haws cadw golwg ar y plant sy'n cael cymorth gan y gwasanaethau hyn.
- Mae cynllun peilot presennol, Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) Gwent<sup>2</sup>, wedi galluogi'r bartneriaeth i wneud penderfyniadau'n gyflym ynghylch plant sy'n dioddef camfanteisio. Mae canlyniadau cadarnhaol o'r cynllun NRM yn cael eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau ynghylch datrysiadau y tu allan i'r llys ac achosion llys.
- Ymddengys bod y trefniadau ar gyfer rhoi sylw i gamfanteisio yn gadarn ac mae'r bartneriaeth yn eu deall. Ceir timau a gwasanaethau pwrpasol sy'n gallu cynnig cefnogaeth i blant sy'n dioddef camfanteisio. Canfu'r arolygwyr dystiolaeth o ymarfer trawiadol i ddiogelu plant rhag niwed y tu allan i'r teulu mewn achosion cyn y llys ac ar ôl y llys.
- Mae partneriaethau gyda'r heddlu yn drawiadol gyda threfniadau rhannu gwybodaeth effeithiol i sicrhau diogelwch y plentyn a diogelwch unigolion eraill. Mae'r heddwys ar secondiad yn mynd ati'n rhagweithiol i weithio'n uniongyrchol gyda phlant a dioddefwyr, ac mae'n hwyluso hyfforddiant ar draws y bartneriaeth.
- Mae gan blant fynediad cyflym at ddarpariaeth iaith a lleferydd, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau mewnol. Mae llwybrau iechyd yn gwbl ddealladwy a chânt eu defnyddio i gael gafael ar gymorth i blant sydd â lefelau uchel o angen. Mae plant sy'n cael cymorth gan y GCI ar sail ataliol, y tu allan i'r llys neu'n statudol yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaethau hyn.
- Mae staff yn cael eu hyfforddi i gynnal asesiadau o ymddygiad rhywiol niweidiol a cheir llwybr clir i gael gafael ar gymorth arbenigol.
- Mae'r berthynas â'r llysoedd yn gadarnhaol gyda charfan ymroddedig o ymarferwyr y GCI yn hyrwyddo cysondeb a hyder wrth gynghori ar opsiynau dedfrydu. Mae'r llysoedd yn deall arlwy ataliol y GCI ar gyfer plant sy'n destun mechniaeth yn y llys a'r rhai sy'n destun ymchwiliad.

---

<sup>2</sup> Y fframwaith ar gyfer adnabod a chyfeirio unigolion sydd o bosibl yn ddiodefwyr caethwasiaeth fodern a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol.

- Ceir dull rhagweithiol o gysylltu â dioddefwyr; mae'n cynnwys cynnig cyswllt drwy wahanol ddulliau, fel galwadau ffôn, negeseuon testun, e-bost, llythyrau ac ymweliadau cartref. Ceir lefel briodol o ddyncwch i'w hannog i gysylltu. Gall dioddefwyr optio i mewn ac allan ar unrhyw adeg. Mae'r cyswllt yn cael ei arwain gan y dioddefwr, ac mae lefel a hyd y cyswllt yn dibynnu ar angen y dioddefwr.
- Mae partneriaeth y GCI wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ystod drawiadol o wasanaethau y gall plant gael gafael arnynt yn gyflym ac yn rhwydd. Mae cyfres Believe o ymyriadau yn cynnwys sesiynau gwaith grŵp ar gyfer amrywiol anghenion fel troseddau cyllyll, camfanteisio, agweddau at yr heddlu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ceir prosiectau penodol sy'n seiliedig ar gryfderau i annog plant i dreulio amser yn yr awyr agored, cymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol, a magu hyder a hunaniaeth. Mae defnyddio gweithgareddau o'r fath i wneud iawn yn sicrhau bod plant yn meithrin sgiliau ac yn gwneud gwaith ystyrlon yn eu cymunedau ar yr un pryd. Mae ymyriadau yn cael eu hachredu a gall plant ennill Gwobrau Cyflawniad Pobl Ifanc (YAA).

### **Meysydd i'w gwella:**

- Mae gan y bartneriaeth ryw gymaint o ddealltwriaeth o broffil plant y GCI. Fodd bynnag, nid yw ei dealltwriaeth o amrywiaeth, anghymesuredd a nodweddion gwarchoddedig wedi'i datblygu'n ddigonol a rhaid ei chryfhau.
- Er bod ychydig o werthuso yn mynd rhagddo, a hwnnw wedi'i gysylltu'n gyffredinol â chyllid grant, ni cheir diwylliant cynhenid o adolygu a gwerthuso'n ffurfiol effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i blant. Mae partneriaeth y GCI yn darparu amrywiaeth eang o ymyriadau, ac mae angen iddi fod yn hyderus bod y cynnwys a'r dulliau darparu yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant.
- Mae'r cysylltiadau partneriaeth strategol ac ehangach rhwng y GCI ac addysg yn cael eu gwella drwy rôl diogelu addysg drwy secondiad. Er bod y trefniant hwn yn rhoi arweiniad a chefnogaeth fwy strategol i blant y GCI sy'n cael eu trafod mewn paneli addysg, mae'n gadael bwlch gweithredol sy'n cael ei lenwi gan ymarferwyr y GCI. Mae'r GCI wedi ymrwymo i recriwtio gweithiwr addysg penodol ar gyfer y GCI.
- Er bod trefniadau pontio interim ar waith i symud oddi wrth wasanaethau ieuencid i wasanaethau oedolion ac er bod y bartneriaeth yn deall y trefniadau hynny, mae dal angen swyddog prawf penodol i arwain ar waith pontio hanfodol gyda phlant.
- Cydnabyddir y rhwystrau i sicrhau llety a lleoliadau addysgol priodol i blant. Mae tîm arwain y GCI yn rhan o weithgor sy'n ceisio goresgyn yr heriau hyn.

## 1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau



Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn.

Angen gwella

### Cryfderau:

- Mae gan y GCI restr gynhwysfawr o bolisiau, maent yn cael eu hadolygu'n aml ac ar gael i'r holl staff eu gweld.
- Mae'r trefniadau llywodraethu a rhannu gwybodaeth yn gadarn. Ceir protocolau rhannu gwybodaeth, cytundebau cyfrinachedd a chylch gorchwyl i sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n effeithiol.
- Mae'r dangosfwrdd TGCh a ddefnyddir gan y gwasanaethau plant a'r GCI yn golygu bod modd cyfeirio unigolion yn gyflym a di-dor rhwng y ddau wasanaeth. Mae hwn yn darparu gwybodaeth ddyddiol am atgyfeiriadau newydd, a gall y ddau wasanaeth gofnodi a gweld canlyniadau'r rhain.
- Mae'r GCI yn gwneud rhywfaint o waith meincnodi a hap-samplu ac mae hynny'n arwain at newidiadau mewn prosesau ac arferion. Mae hyn wedi cynnwys creu panel dyrannu aml-asiantaeth, a fforymau ychwanegol i sicrhau diogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill.
- Mae'r GCI wedi datblygu prosesau sicrhau ansawdd i hyrwyddo cysondeb.

### Meysydd i'w gwella:

- Nid oes gan y GCI safle penodol i staff wneud gwaith gyda'r plant, ac mae hyn yn creu heriau ar gyfer cyfarfodydd arbenigol a chyfrinachol. Er bod ganddynt safle ar hyn o bryd, cydnabyddir nad yw hwn yn briodol. Ceir cynlluniau dros dro a hirdymor i gael adeiladau newydd, er mwyn gallu darparu amgylchedd diogel a chadarnhaol i'r staff a'r plant fel mater o flaenoriaeth.
- Ceir bylchau o ran y data sy'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi; mae hynny'n golygu efallai nad oes gan y GCI ddealltwriaeth gywir o'r garfan bresennol o blant. Tynnwyd sylw at y mater hwn ac mae mesurau ar waith i roi sylw iddo a darparu proses ddadansoddi fwy cadarn.
- Dylai'r gwaith o adolygu'r polisi ymgorffori'r anghymesuredd sy'n benodol i gymunedau amrywiol Casnewydd. Dylai polisiau'r GCI roi sylw i orgynrychiolaeth ac effaith nodweddion gwarchoddedig ar brofiad bywyd plentyn.
- Mae'r GCI yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i blant. Dim ond newydd gael eu sefydlu y mae'r peirianweithiau gwerthuso ac mae angen eu datblygu fel ffordd o ddeall effeithiolrwydd y gwaith a wneir. Mae angen gwneud gwaith dadansoddi trylwyr rheolaidd i ddeall yr angen yn iawn a phenderfynu sut dylid darparu'r gwasanaeth i'r dyfodol.

## Cynnwys plant a'u rheini neu'u gofalwyr

Mae'r GCI yn gwerthfawrogi lleisiau a barn plant a'u rhieni neu'u gofalwyr, a chaiff eu barn ei rhannu ym mhob cyfarfod o'r bwrdd partneriaeth strategol. Gwelsom enghreifftiau o blant yn cwblhau adborth ysgrifenedig, sain a fideo i roi manylion eu profiadau o'r system gyfiawnder a'r cymorth a ddarperir gan y GCI. Mae plant hefyd yn cyfrannu at asesu, cynllunio, darparu ac adolygu eu hymyriadau. Mae'r GCI yn awyddus i ddatblygu peirianweithiau er mwyn cofnodi lleisiau plant yn gyson a sicrhau bod yr adborth yn dylanwadu ar y gwaith o werthuso a datblygu gwasanaethau i'r dyfodol.

Cysylltodd y GCI â'r plant a oedd ag achosion agored adeg yr arolygiad ar ein rhan er mwyn cael caniatâd ganddynt i gymryd rhan mewn arolwg testun. Fe wnaethom gyflwyno'r arolwg yn annibynnol i'r 13 o blant a roddodd ganiatâd, ac atebodd chwech ohonynt. Fe wnaethom hefyd gyfweled â thri o blant ac un rhiant. Cafwyd adborth cadarnhaol gan y plant a'r rhieni ac fe adlewyrchai'r

dulliau seiliedig ar berthynas a welsom yn yr achosion a arolygwyd gennym. Roedd y plant yn teimlo bod eu gweithwyr yn y GCI yn eu parchu. Dywedodd y pedwar plentyn a'r rhiant a gyfweledwyd fod gan ymarferwyr y GCI y sgiliau iawn, a dywedodd rhai eu bod wedi cael cefnogaeth gadarnhaol i ddelio â digwyddiadau anodd yn eu bywyd.

Dywedodd y rhieni fod y GCI wedi eu galluogi nhw a'u plentyn i gael gafael ar ddarpariaeth iechyd ac addysg arbenigol mewn ffordd gefnogol ac amserol. Ystyriwyd bod y gwaith aml-asiantaeth yn gydweithredol, gyda'r plant a'u rhieni'n ymwybodol o rôl y GCI a gweithwyr proffesiynol eraill.

Dyma a ddywedodd y plant wrthym:

| *"Maen nhw wedi fy helpu i'n fawr ac maen nhw'n dda iawn am ddeall ymddygiad pobl ifanc."*

| *"Maen nhw'n fy rhwystro rhag cymysgu gyda'r criwiau anghywir."*

Gwelsom dystiolaeth dda o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr yn ystod ein harolygiad a chofnodwyd hyn mewn ymatebion i'n cwestiynau, gydag un rhiant yn myfyrio ar ryngweithio â gweithiwr achos ei phlentyn:

| *"Mae (HEPGORWYD) wedi arwain ein mab drwy gyfnod anodd yn ei fywyd. Mae hi wedi dangos empathi tuag at y sefyllfa ehangach sy'n gysylltiedig â'i atgyfeiriad i'r GCI, mae wedi'i helpu i ddeall bod atebion gwell i'w cael i sefyllfaoedd, ac yn bwysig iawn, mae wedi gwrandao ar ei bryderon ef a'n pryderon ninnau, ac rwy'n teimlo ei bod wedi mynd y tu hwnt i'r hyn y mae disgwyl iddi ei wneud o ran gweithio gyda sefydliadau proffesiynol eraill i sicrhau dyfodol ymarferol i (HEPGORWYD) yn ei sefyllfa bresennol."*

Dywedodd rhieni eraill am y staff:

| *"Mae wedi helpu llawer iawn ar fy mab i droseddu llai."*

| *"Mae'n cymryd unigolyn arbennig i wneud beth mae gweithiwr y GCI yn ei wneud."*

Er bod yr adborth yn hynod gadarnhaol, mae'n werth nodi bod sesiynau gyda phlant yn cael eu cynnal mewn amrywiaeth eang o leoliadau, gan adlewyrchu dadansoddiad y GCI ei hun bod arnynt angen lle penodol i weld plant a'u rhieni neu'u gofalwyr.

## Amrywiaeth

- Nid yw'r dull strategol o roi sylw i amrywiaeth a sut y mae'r gwasanaeth yn bwriadu diwallu nodweddion gwarchoddedig plant wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae angen i'r bwrdd gefnogi'r GCI i ganfod a deall anghymesuredd a llywio ymateb strategol a gweithredol clir. Mae'r GCI wedi datblygu strategaeth a chynllun gweithredu anghymesuredd ac wedi cydnabod mai ond megis dechrau gweithredu'r rhain y maent.
- Mae'r polisiâu a'r gweithdrefnau yn ymdrin ag anghymesuredd, ond mae angen adolygu'r rhain gan ganolbwyntio'n benodol ar gymunedau amrywiol Casnewydd. Rhaid archwilio data'r GCI a'r bartneriaeth yn erbyn yr holl nodweddion gwarchoddedig er mwyn gallu deall carfan y GCI yn well.
- Drwy ddadansoddi data'r GCI, gwelwyd bod dau grŵp wedi'u gorgynrychioli yng ngharfan y GCI; y grwpiau hyn yw plant sy'n derbyn gofal (sy'n cynrychioli 16 y cant o ymyriadau yn 2022-2023) a phlant o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (sy'n cynrychioli 21 y cant o'r holl ymyriadau rhwng 01 Hydref 2022 a 30 Medi 2023). Mae'r GCI yn cydnabod bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gorgynrychioli ac mae'n gweithredu Dulliau Adferol ar gyfer delio â Phlant sy'n Derbyn Gofal (RACLA).
- Mae angen datblygu dull adnabod a dealltwriaeth y GCI o'r holl ystyriaethau ynglŷn ag amrywiaeth. Canfu'r arolygwyr rai enghreifftiau o arfer da yn y sampl achosion, ond roedd hyn yn anghyson. Dylai'r GCI fod yn sicr bod ymarferwyr yn deall y nodweddion gwarchoddedig yn eu holl amrywiaeth, yn teimlo'n hyderus i gael sgysiaid gyda phlant am eu hanghenion oherwydd amrywiaeth, ac ystyried sut mae'r rhain yn effeithio ar hunaniaeth a phrofiad bywyd plant.
- Mae strategaeth pum mlynedd Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer y Gymraeg wedi arwain at ddatblygu cynllun gweithredu iaith Gymraeg y GCI ar gyfer 2024, *Mwy Na Geiriau*. Mae'r GCI wedi creu hyrwyddwyr y Gymraeg ac amrywiaeth i gefnogi'r tîm. Mae dogfennau'r GCI yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig, gyda'r bwrdd partneriaeth diwygiedig yn rhoi manylion effaith gwasanaethau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli ar Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid aml-asiantaeth. Mae'r GCI yn ymgorffori'r Glasbrint ar gyfer Cymru ac mae ganddo seiliau cadarn ar gyfer atal a chyfeirio plant oddi wrth y system gyfiawnder.
- Canfu'r arolygwyr fod arferion sy'n ystyriol o drawma yn cael eu defnyddio'n rheolaidd i gysylltu â phlant a'u cefnogi. Mae ymarferwyr a rheolwyr ar draws y GCI yn deall effaith trawma.
- Mae'r GCI yn hwyluso ymyriadau uniongyrchol, gan gynnwys prosiect Soul Trail, sef rhaglen awyr agored sy'n cefnogi plant o gymunedau amrywiol i fwynhau gweithgareddau natur, gan roi iddynt le diogel i siarad, gwella eu hyder a meithrin perthnasoedd.
- Bu GCI Casnewydd yn arwain ar y prosiect pilot Levelling the Playing Field (LtPF) yng Ngwent,<sup>3</sup> gan ddefnyddio chwaraeon a gweithgarwch corfforol i gysylltu â phlant ethnig amrywiol a gwella'u canlyniadau bywyd a'u hiechyd, gan fod y plant hyn yn fwy tebygol o ymuno â'r system cyfiawnder troseddol, neu o fod yn gysylltiedig â hi eisoes.

---

<sup>3</sup> [Gwybodaeth am LtPF \(levellingtheplayingfield.org\)](http://levellingtheplayingfield.org)

## Parth dau: Datrysiadau yn y llys

Fe wnaethom edrych yn fanwl ar chwech dedfryd gymunedol a oedd dan ofal y GCI.

### 2.1. Asesiad



Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Da

Mae ein sgôr<sup>4</sup> ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	100%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	<b>67%</b>
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	83%

Roedd y gwaith o asesu i ba raddau y mae plant yn ymatal rhag troseddu yn cael ei wneud yn dda ym mhob achos, gan roi dealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n cyfrannu at droseddu ymysg plant. Defnyddiodd yr ymarferwyr amrywiaeth o wybodaeth gan asiantaethau eraill i ddadansoddi cymhellion ac agweddau'r plentyn sy'n sail i'w hymddygiad. Mae'r GCI wedi gwreiddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau yn ei waith gyda phlant a gwelsom fod pob asesiad yn cynnwys y plentyn ac yn canolbwyntio ar ddatblygu ei ffactorau amddiffynnol. Byddai'r ymarfer yn cael ei wella drwy ddadansoddi anghenion pob plentyn oherwydd amrywiaeth yn gyson a sicrhau bod sgysiau'n cael eu cynnal i ddeall effaith profiad bywyd y plentyn.

Gwelodd yr arolygwyr lefel uchel o anghenion cymhleth yn y sampl achosion. Roedd plant wedi bod drwy drawma helaeth a digwyddiadau mawr yn eu bywyd. Nid oedd y gweithgaredd asesu yn nodi'r holl risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn, ac nid oedd gwybodaeth gan asiantaethau eraill yn cael ei defnyddio'n gyson i ddatblygu asesiadau cynhwysfawr i gadw'r plentyn yn ddiogel. Pan gafodd gwybodaeth ei chasglu, cafodd ei defnyddio'n effeithiol i ddeall anghenion y plentyn a gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ymarferwyr iechyd yn cefnogi asesiadau'n uniongyrchol.

Roedd yr asesiadau i gadw eraill yn ddiogel rhag niwed yn bennaf yn nodi ac yn dadansoddi'r ystod o ymddygiadau niweidiol a natur y risgiau hyn. Roedd trothwyon risg o niwed difrifol wedi cael eu cymhwyso'n gywir ym mhob achos ac roedd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPP) yn cael eu defnyddio'n briodol. Mae angen i leisiau dioddefwyr mewn asesiadau a'r ffocws ar ddiogelwch dioddefwyr fod yn fwy cadarn, a rhagwelir y bydd gweithiwr dioddefwyr newydd y GCI yn helpu i ddatblygu'r ymarfer.

<sup>4</sup> Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn ein hatodiad data.](#)



## 2.2. Cynllunio



Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr.

Da

Mae ein sgôr<sup>5</sup> ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?	83%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	<b>67%</b>
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	<b>67%</b>

Roedd cynllunio i gefnogi anghenion y plant i ymatal rhag troseddu, i ddatblygu eu cryfderau a hyrwyddo'r ffactorau amddiffynnol yn amlwg yn y rhan fwyaf o achosion. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o gynlluniau sy'n addas i blant, wedi'u haddasu i ddiwallu anghenion dysgu a lleferydd, iaith a chyfathrebu unigolion. Fodd bynnag, nid oedd yr arfer hwn wedi'i wreiddio ar draws achosion ar ôl y llys. Gwelsom ddull amrywiol o adnabod ac ymateb i anghenion y plentyn oherwydd ei amrywiaeth, gyda dim ond hanner y sampl achosion yn cynnwys y maes gwaith hollbwysig hwn yn ddigonol mewn gweithgarwch cynllunio.

Roedd dros hanner y plant yn y sampl achosion ar ôl y llys wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn ystod cyfnod eu gorchmynion llys. Felly, mae cynllunio i gadw'r plentyn yn ddiogel yn gofyn am ymateb amlasiantaeth cydlynol. Gwelsom fod y gwaith cynllunio, yn gyffredinol, yn adnabod ac yn dadansoddi'r risgiau a geir i ddiogelwch a lles y plentyn. Roedd ymarferwyr y GCI yn mynychu cyfarfodydd a gynhelir gan asiantaethau eraill fel mater o drefn; fodd bynnag, nid oedd y trafodaethau a'r cynllunio o'r cyfarfodydd hynny wedi'u hintegreiddio yng ngweithgareddau cynllunio'r GCI. Yn hanner yr achosion a arolygwyd, nid oedd cynlluniau'r GCI yn cyd-fynd â'r cynlluniau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel, ac roedd hyn yn effeithio ar ddigonolrwydd y cynlluniau wrth gefn. Gwelsom themâu tebyg gyda'r gwaith cynllunio i gadw eraill yn ddiogel, gyda'r angen i gynnwys asiantaethau eraill bob amser, ac i ddefnyddio'r wybodaeth a rannwyd i wella ansawdd y gweithgareddau cynllunio.

O ystyried y lefel uchel o bryderon ynghylch diogelwch a lles a'r risg o niwed a welwyd, gellid yn rhesymol fod wedi rhagweld rhai o'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau wrth gefn. Byddai'r gwaith cynllunio'n cael ei wella drwy fod cynlluniau asiantaethau eraill yn cael eu hintegreiddio fel mater o drefn, a drwy sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn cael eu teilwra'n benodol i gadw'r plentyn ac unigolion eraill yn ddiogel rhag niwed.

<sup>5</sup> Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

## 2.3. Gweithredu a chyflawni



Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.

Angen gwella

Mae ein sgôr<sup>6</sup> ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	67%
A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	<b>50%</b>
A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	67%

Ym mhob achos a arolygwyd, rhoddodd yr ymarferwyr flaenoriaeth i ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r plant a'u rhieni neu'u gofalwyr. Gwelsom dulliau sensitif o ymgysylltu â phlant a oedd, oherwydd trawma helaeth, wedi ei chael yn anodd meithrin perthynas ddiogel a chadarnhaol gydag oedolion. Roedd dulliau gweithredu a oedd yn ystyriol o drawma yn amlwg ac roedd ymarferwyr yn galluogi plant i ymrwmo i ofynion y gorchymyn, ac yn ymateb i'w hamgylchiadau newidiol. Roedd cyfleoedd ar gyfer integreiddio â'r gymuned i'r dyfodol i'w gweld yn hanner yr achosion ac fe ellid eu datblygu oherwydd yr arlwy ataliol, cyffredinol a helaeth sydd ar gael i'r gwasanaeth.

Roedd y ddarpariaeth i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddigonol yn hanner yr achosion yn ein sampl. Gwelsom enghreifftiau o uwch-gyfeirio effeithiol yn y bartneriaeth i gadw plant yn ddiogel. Fodd bynnag, roedd hyn yn anghyson, gan arwain at golli cyfleoedd i gynnwys gofal cymdeithasol plant wrth ddarparu gwasanaethau hanfodol i blant.

Arweiniodd y cydweithio rhwng y GCI a'r ymarferwyr iechyd at asesiadau arbenigol a arweiniodd at wneud addasiadau mewn ymyriadau i ddiwallu anghenion lleferydd, iaith, cyfathrebu a gwybyddol plentyn. Gwelsom rai enghreifftiau o ymyriadau wedi'u teilwra a ddefnyddiwyd gyda phlant, gan gynnwys y rheini sy'n rhoi sylw i berthnasoedd iach, diogelwch ar-lein, eu perthynas â chyfoedion, datrys problemau, a gwneud penderfyniadau.

Roedd darparu gwasanaethau i gefnogi diogelwch unigolion eraill yn amlwg yn y mwyaf rhesymol o achosion. Roedd y gwaith amlasiantaeth cydweithredol yn cael ei wella gan oruchwyliaeth paneli rheoli risgiau'r GCI, er bod angen datblygu'r ffocws ar ddiodefwr. Gwnaed gwaith generig ar ymwybyddiaeth o ddiodefwr, ond dim ond hanner yr achosion a arolygwyd a oedd yn rhoi digon o sylw i ddiogelwch parhaus diodefwr.

<sup>6</sup> Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

## 2.4. Adolygu



Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr.

Annigonol

Mae ein sgôr<sup>7</sup> ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?	67%
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	<b>33%</b>
A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	<b>33%</b>

Mae cynllun gweithredu a gwella GCI Casnewydd yn nodi bod adolygu gweithgarwch yn un maes y mae angen ei wella. Adlewyrchir hyn yn ein canfyddiadau gyda rhy ychydig o achosion yn adolygu diogelwch y plentyn a diogelwch pobl eraill yn ddigonol.

Roedd y gwaith adolygu yn ymateb yn bennaf i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymatal rhag troseddu a datblygu cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plant. Fodd bynnag, un thema a gododd dro ar ôl tro yn y gwaith ar ôl y llys oedd y dull nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar gyfer canfod a dadansoddi anghenion plentyn oherwydd amrywiaeth. Canfu'r arolygwyr mai dim ond mewn dau o'r chwe achos yr oedd y gwaith adolygu yn dadansoddi ac yn ymateb i anghenion plentyn oherwydd amrywiaeth. Gwelsom bocedi o arferion da, ond ychydig iawn o ddealltwriaeth sylfaenol o effaith yr holl nodweddion gwarchoddedig ar hunaniaeth a phrofiadau bywyd plentyn.

Canfu'r arolygwyr fod adolygiadau ysgrifenedig ffurfiol o ymatal ac adolygiadau i gadw'r plentyn yn ddiogel wedi cael eu cynnal ym mhob achos, a bod adolygiadau i gadw unigolion eraill yn ddiogel wedi cael eu cwblhau mewn pump o'r chwe achos. Fodd bynnag, er bod y broses adolygu'n digwydd, nid oedd yn ystyrlon ac nid oedd yn cofnodi nac yn dadansoddi'n ddigonol yr amgylchiadau newidiol na'r effaith ar y plentyn, y dioddefwyr, aelodau'r teulu a'r cyhoedd.

Nid oedd yr adolygiadau i gadw'r plentyn ac unigolion eraill yn ddiogel bob amser yn defnyddio'r wybodaeth a oedd gan asiantaethau eraill, sy'n golygu nad oedd addasiadau i'r cynlluniau parhaus yn ddigonol i sicrhau diogelwch pawb. Canfu'r arolygwyr nad oedd ymddygiadau na honiadau newydd yn cael eu harchwilio, eu hasesu na'u cynnwys yn llawn yn y gweithgarwch adolygu cyffredinol. Gwelsom enghreifftiau o'r risg o niwed, a dosbarthiadau diogelwch a lles yn cael eu gostwng yn rhy gynnar, heb ddigon o dystiolaeth i ddangos cyfnod parhaus o effaith gadarnhaol ar fywyd y plentyn.

<sup>7</sup> Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

## Parth tri: Datrysiadau y tu allan i'r llys

Fe wnaethom archwilio wyth achos a oedd yng ngofal y GCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybudd amodol ieuencid, un rhybudd ieuencid a chwech datrysiad cymunedol. Fe wnaethom gyfnewid y rheolwyr achos mewn wyth achos.

### 3.1. Asesiad



Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ei ofalwyr.

Da

Mae ein sgôr<sup>8</sup> ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?	88%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?	88%
A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?	<b>63%</b>

Edrychodd yr arolygwyr ar sampl o achosion a oedd yn dyddio'n ôl i amser cyn y polisiau a'r gweithdrefnau newydd a roddwyd ar waith ar 01 Ionawr 2024. Defnyddiwyd offer sgrinio ac asesu amrywiol i lywio'r trafodaethau yn y panel gwneud penderfyniadau, ac ym mhob un o'r wyth achos, fe wnaed y penderfyniadau ar y cyd rhwng y GCI a'r heddlu. Er bod y bartneriaeth yn cydnabod oedi yn y system gyfiawnder, gwelsom fod penderfyniadau'n cael eu gwneud a bod gwarediadau'n cael eu cyhoeddi yn amserol ym mhob achos. Gwnaed gwaith da i ddadansoddi'r ffactorau ymatal ym mhob un ond un o'r achosion a arolygwyd; yn yr achos hwnnw, ni chanolbwyntiwyd yn ddigonol ar archwilio effaith ystyriaethau amrywiaeth y plentyn ar ymddygiad. Canfu'r arolygwyr waith ardderchog i gynnwys y plentyn a'r rhiant neu'r gofalwr yn y broses asesu, gan adeiladu ar gryfderau'r plentyn a dadansoddi rhwystrau strwythurol allweddol. Yn wahanol i ganfyddiadau'r sampl o achosion ar ôl y llys, gwelsom fod dymuniadau a theimladau'r holl ddiodefwyr perthnasol wedi bod yn sail i'r broses asesu y tu allan i'r llys.

Cafodd asesiadau i gadw'r plentyn yn ddiogel eu gwella gan ddull y GCI a'r bartneriaeth ehangach o fynd i'r afael â chamfanteisio. Gwelsom achosion o wybodaeth gadarnhaol yn cael ei rhannu gan sicrhau bod niwed y tu allan i'r teulu yn cael ei nodi a'i ddadansoddi'n ddigonol.

Roedd yr asesiadau a oedd yn nodi'r holl ffactorau a oedd yn gysylltiedig â chadw unigolion eraill yn ddiogel yn wannach. Mewn rhai achosion, cafodd ymddygiad a oedd yn peri pryder ei adnabod yn gywir, ond roedd angen dadansoddi hyn yn fwy manwl i gofnodi'n benodol natur y niwed. Pan wnaed hyn yn effeithiol, roedd ymarferwyr wedi defnyddio amrywiol ffynonellau gwybodaeth i weld pwy oedd mewn perygl, natur y perygl hwnnw, a'r cyd-destun lle'r oedd y perygl ar ei waethaf.

<sup>8</sup> Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

## 3.2. Cynllunio



Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr.

Rhagorol

Mae ein sgôr<sup>9</sup> ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?	88%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?	88%
A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?	88%

Roedd y gweithgarwch cynllunio y tu allan i'r llys yn un o gryfderau'r GCI. Ym mhob achos, gwelsom fod y gwaith cynllunio yn ystyried amgylchiadau personol y plentyn a'r cyd-destun cymdeithasol a theuluol ehangach. Roedd ymarferwyr yn ymwybodol o aeddfedrwydd y plentyn a'i allu i gyfranogi mewn cynllun ymyriadau arfaethedig. Roedd y gwaith cynllunio yn cael ei deilwra ar gyfer yr unigolyn gydag enghreifftiau o amcanion a oedd yn ystyrlon i'r plentyn ac yn hyrwyddo eu buddiannau a'u nodau. Canfu'r arolygwyr fod gweithgareddau chwaraeon yn cael eu cynnwys fel mater o drefn yng nghynllun plentyn i'w annog i ddefnyddio ei amser yn adeiladol a datblygu sgiliau cymdeithasol a sgiliau meddwl. Roedd y gwaith o gefnogi cryfderau'r plentyn yn cael ei gydbwysu ag anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr ym mhob achos. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau o ddulliau adferol effeithiol a oedd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plentyn a'r rhai a niweidiwyd ganddynt.

Roedd pwysigrwydd sicrhau a chynnal darpariaeth addysg briodol yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau, ac roedd yn braf gweld ymgynghoriadau gyda'r therapydd iaith a lleferydd yn llywio'r gwaith o gynllunio ymyriadau. Canfu'r arolygwyr nifer o enghreifftiau o gynlluniau a oedd yn addas i blant, a byddai sefydlu hyn yn yr ymarfer yn cryfhau'r gweithgarwch cynllunio y tu allan i'r llys ymhellach.

Gwelsom themâu tebyg mewn cynlluniau i gadw'r plentyn yn ddiogel ac i gadw unigolion eraill yn ddiogel. Roedd y gwaith cynllunio i hyrwyddo diogelwch y plentyn ac unigolion eraill yn ddiogel yn gyson ym mhob achos. Gwelsom fod y gwaith cynllunio yn cynnwys asiantaethau eraill yn y rhan fwyaf o achosion, a phan ddigwyddai hyn, fe'i gwnaed yn dda gydag enghreifftiau o drefniadau cydweithio effeithiol gyda gofal cymdeithasol plant. Canfu'r arolygwyr gysondeb cyffredinol â chynlluniau asiantaethau eraill a rhai enghreifftiau o waith aml-asiantaeth cadarn; fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn null y GCI o wneud cynlluniau wrth gefn. Mae'r GCI yn cefnogi plant sydd â lluo o anghenion cymhleth, ac mae'n hanfodol bod cynlluniau wrth gefn yn cael eu teilwra ar gyfer yr unigolyn ac yn rhai penodol er mwyn rheoli'r lefelau uchel o anghenion a risgiau.

<sup>9</sup> Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

### 3.3. Gweithredu a chyflawni



Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu.

Rhagorol

Mae ein sgôr<sup>10</sup> ar gyfer gweithredu a chyflawni yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

	% 'Ydy'
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?	100%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?	88%
A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?	88%

Ym mhob achos a arolygwyd, roedd gan y gwasanaeth a ddarparwyd ffocws digonol i helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu. Roedd yr holl wasanaethau a oedd ar gael i blant ar orchymnion llys statudol ar gael ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, ac roedd yr ymyriadau'n seiliedig ar gryfderau, ac yn helpu plant i ddeall eu hymddygiad.

Ym mhob achos, rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu a chynnal perthynas â'r holl blant a'u rhieni neu'u gofalu, gan alluogi'r plentyn i ymrwmo i'r datrysiad y tu allan i'r llys. Gwelodd yr arolygwyr ymdrechion arloesol a dygn i ennyn diddordeb y plant, a lefelau priodol o ddyfalbarhad i'w hannog i gyfranogi. Roedd y model adfer ar ôl trawma yn cael ei weithredu'n dda, ac roedd goruchwyliaeth seicolegydd clinigol yn sicrhau bod ymyriadau'n cael eu haddasu'n unol â gweithrediad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol y plentyn. Defnyddiwyd therapi celf a phosau i ddatblygu perthnasoedd a sgiliau cymdeithasol allweddol.

Roedd yr ymarferwyr yn dangos sensitifrwydd tuag at anghenion plant oherwydd amrywiaeth. Gwelsom enghreifftiau o blant yn cael eu helpu i sgwrsio am eu treftadaeth a'u hunaniaeth rhywedd, gan arwain at sgysiau cadarnhaol parhaus a'u cyfeirio i grwpiau perthnasol. Byddai datblygu'r arfer hwn yn gyson ar draws yr amrywiol ddatrysiadau a gwasanaethau yn cryfhau dull y GCI o ymdrin ag amrywiaeth.

Canfu'r arolygwyr fod ymarferwyr y GCI yn cefnogi ac yn uwch-gyfeirio pryderon ynghylch y ddarpariaeth addysg yn briodol. Roedd Gyrfa Cymru wedi helpu plentyn i fynd i'r coleg, gan arwain at newidiadau cadarnhaol i'w drefn arferol, i'w grwpiau cyfoedion, a'i arfer o gamddefnyddio sylweddau. Roedd yn braf gweld bod ymarferydd camddefnyddio sylweddau wedi ymuno â'r tîm yn ddiweddar i ddarparu ymyriadau pwrpasol.

Roedd y fforymau rheoli risgiau a diogelwch a oedd yn cael eu harwain gan y GCI yn cyfoethogi'r gwaith aml-asiantaeth. Rhoddwyd sylw digonol i ddiogelu dioddefwyr a dioddefwyr posibl yn yr holl achosion perthnasol.

<sup>10</sup> Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. [Mae esboniad manylach ar gael yn yr atodiad data.](#)

### 3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys



Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy.

Angen gwella

Fe wnaethom hefyd edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

#### Cryfderau:

- Roedd y GCI wedi rhoi polisi a phroses y tu allan i'r llys ddiwygiedig ar waith ar 01 Ionawr 2024. Mae'r polisi yn adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn drwy bob cam o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae cynrychiolwyr gofal cymdeithasol ac ymyrraeth gynnar yn ychwanegiadau cadarnhaol i'r panel gwneud penderfyniadau. Dewisol yw cynnwys plant ar eu panel, yn dibynnu ar ddymuniadau, anghenion unigol ac amgylchiadau'r plentyn.
- Mae'r GCI a'r heddlu wedi ymrwmo i ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ystyried anghenion unigol y plentyn ac amgylchiadau'r trosedd. Mae'r matrices difrifoldeb yn cael ei ddefnyddio'n briodol, ac mae amgylchiadau lliniarol yn cael eu hystyried wrth bennu'r canlyniadau mwyaf priodol.
- Mae'r prosesau rheoli risgiau a diogelwch yn ddigonol, a defnyddir fforymau aml-asiantaeth i sicrhau diogelwch y plentyn a diogelwch unigolion eraill, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y gwaith achos a archwiliwyd gennym.
- Cysylltir â phob dioddefwr a chynigir cymorth a chyfleoedd iddynt gwblhau datganiad dioddefwr i ddylanwadu ar y panel gwneud penderfyniadau y tu allan i'r llys. Ceir arlwy cynhwysfawr i ddioddefwyr sy'n cynnwys gwneud iawn yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, cynadleddau cyfiawnder adferol, cyfeirio at wasanaethau cymorth eraill, diweddarau achosion, a mewnbwn i brosesau rheoli risgiau a diogelwch.
- Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio dull rhagweithiol a chadarnhaol gyda phlant sy'n derbyn gofal rhag iddynt ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r GCI yn darparu hyfforddiant adferol i ddarparwyr gofal a'r heddlu i sicrhau nad yw plant yn cael eu huwch-gyfeirio'n ddiangen drwy'r system gyfiawnder.
- Mae plant a fu'n gysylltiedig â throseddau moduro yn gymwys i gael datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae achosion yn cael eu hystyried fesul un a, lle bo hynny'n briodol, byddant yn cael eu cyfeirio i becyn ymyrraeth wedi'i deilwra.
- Mae'r holl ymyriadau sydd ar gael i blant ar orchmynion statudol hefyd ar gael i'r rhai y mae eu hachosion yn cael eu datrys y tu allan i'r llys. Canfu'r arolygwyr fod staff y GCI yn gwneud gwaith ardderchog sy'n seiliedig ar gryfderau gyda phlant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys.

### **Meysydd i'w gwella:**

- Newydd gael eu sefydlu y mae'r polisi a'r ddarpariaeth tu allan i'r llys diwygiedig ac mae angen eu datblygu i sicrhau bod gan bawb ar draws y GCI a'r bartneriaeth ddealltwriaeth gadarn ohonynt.
- Nid yw holl ymarferwyr y GCI yn deall y prosesau sgrinio ac asesu y tu allan i'r llys, na'r canlyniadau dargyfeiriol a ddefnyddir.
- Mae'r GCI a'i bartneriaid yn cydnabod y bu gwelliannau yn y broses y tu allan i'r llys, ond mae rhagor o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig mewn perthynas â chraffu a gwerthuso'n lleol.
- Mae'r adroddiadau perfformiad yn rhoi dadansoddiad o ryw, ethnigrwydd a statws plentyn sy'n derbyn gofal yng nghyswllt canlyniadau datrysiadau y tu allan i'r llys. Dylid gweithio i werthuso'r effaith ar blant sydd â nodweddion gwarchoddedig gwahanol i ganfod a yw'r GCI yn diwallu eu hanghenion amrywiaeth ac yn lleihau anfantais.
- Dylai lleisiau a phrofiad plant a rhieni neu ofalwyr gael eu casglu a'u dadansoddi'n rheolaidd i siapio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Byddai'r paneli craffu rhanbarthol sydd ar waith yn cael eu gwella drwy gyflwyno trefniadau craffu lleol er mwyn gwneud dadansoddiad manwl o'r broses o wneud penderfyniadau ac o ddarparu datrysiadau y tu allan i'r llys yng Nghasnewydd.
- Mae'r GCI wedi sylwi ar oedi rhwng y trosedd a'r cwblhau, ac mae hyn wedi cael ei archwilio gyda'r heddlu a'r bwrdd. Dylai gwaith craffu pellach ar lefel y bwrdd roi sicrwydd bod plant yn cael canlyniadau prydlon.



## 4.1. Ailsefydlu

### 4.1. Y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu



Ceir gwasanaeth ailsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael caethiwed.

Da

Fe wnaethom edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. I ddangos y gwaith hwnnw, fe wnaethom arolygu un achos a oedd yng ngofal y GCI a oedd wedi cael dedfryd o garchar. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn.

#### Cryfderau:

- Roedd y penderfyniadau i adolygu polisiâu a phrosesau ailsefydlu wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd y polisi, y canllaw ymarfer, y cynllun ailsefydlu, a'r addewid i'r plentyn yn cynnwys dull gweithredu unigol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer ailsefydlu ac ailintegreiddio.
- Mae'r polisi a'r canllaw ymarfer ailsefydlu ac ailintegreiddio yn nodi'n glir yr angen am drefniadau diogelu, rheoli risgiau a MAPPA sy'n cydreddeg. Mae gan y GCI gytundeb cydweithio manwl gyda'r gwasanaethau plant sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau pan fydd plant yn y ddalfa.
- Mae pwysigrwydd ailsefydlu adeiladol, datblygu hunaniaeth rhag-gymdeithasol, a darparu gwasanaethau wedi'u teilwra i'r unigolyn yn rhan annatod o'r trefniadau ailsefydlu ac ailintegreiddio.
- Canfu'r arolygwyr enghreifftiau o waith cadarn gan y GCI i ddarparu pecynnau mechniaeth a fyddai'n osgoi remandio unigolion yn y ddalfa yn ddiangen ac yn hir.
- Ceir ymrwymiad aml-asiantaeth i gefnogi'r fframwaith ailsefydlu. Mae hyn yn cael ei ffurfioli drwy fynychu ac ymgysylltu â phaneli ailsefydlu ac ailintegreiddio.
- Caiff y prosesau uwch-gyfeirio eu cofnodi. Yn ein harchwiliad o ddarparu gwasanaethau ailsefydlu gwelsom drefniadau uwch-gyfeirio effeithiol i herio hygyrchedd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant.
- Ceir arlwy mewngymorth cadarn ar gyfer plant sydd yn y ddalfa ar gyfer iechyd, addysg a chamddefnyddio sylweddau. Bydd gwasanaethau partner yn mynychu'r stad sefydliadau diogel i feithrin perthynas â phlant, cysylltu â darparwyr sefydliadau diogel, a chefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer yr amser ar ôl eu rhyddhau.
- Mae'r bartneriaeth yn cefnogi plant a leolir yn Lloegr i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg drwy ddefnyddio mentoriaid a chyfieithwyr. Cydnabyddir y gellid bod angen cymorth ychwanegol ar blant a leolir y tu allan i Gymru gyda darpariaeth Gymraeg benodol.
- Deallwyd pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad â phlant yn y ddalfa a'u rhieni neu'u gofawyr. Roedd y cyswllt gan y GCI yn aml ac yn ystyrlon, gan alluogi cefnogaeth barhaus gan y gwasanaeth.
- Ceir ymarferydd ailsefydlu ac ailintegreiddio arweiniol penodol yn y tîm. Maent wedi darparu hyfforddiant i'r tîm gan ganolbwyntio ar ailsefydlu adeiladol a phwysigrwydd

newid hunaniaeth. Mae pob plentyn sy'n cael ei ddedfrydu neu ei remandio i'r ddalfa yn cael ei gyd-ddyrannu i swyddog y GCI a'r arweinydd ailsefydlu.

- Mae'r GCI yn darparu amrywiaeth o ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfderau i helpu plant i ailintegreiddio i'r gymuned.
- Yn ein harchwiliad o'r ddarpariaeth gwasanaethau ailsefydlu gwelsom brosesau effeithiol i sicrhau diogelwch y plentyn, dioddefwyr, a'r cyhoedd yn ehangach.

### **Meysydd i'w gwella:**

- Mae angen i bolisiau a chanllawiau i'r dyfodol nodi'n glir sut mae'r gwasanaeth yn bwriadu bodloni nodweddion gwarchoddedig plant a'u hanghenion oherwydd amrywiaeth.
- Mae'r bwrdd yn ymwybodol o blant sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa, a bydd gwaith datblygu yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd roi sylw i'r pethau sy'n eu rhwystro rhag ailsefydlu'n effeithiol.
- Mae'r her o ddarparu lle addas yn golygu nad yw'r ddarpariaeth yn addas yn aml. Mae'r bartneriaeth yn cydnabod y problemau hyn ac yn gweithio i roi sylw i'r diffygion yn y lleoliadau sydd ar gael.
- Mae angen gwneud gwaith archwilio pellach i graffu ar ansawdd yr ymarfer, a defnyddio dulliau mwy meintiol o ddadansoddi a gwerthuso gwaith y GCI gyda phlant sydd ar remand a phlant sydd wedi'u dedfrydu i'r ddalfa, fel ei gilydd.
- Gallai polisi a chanllaw ymarfer y GCI gryfhau prosesau diogelwch dioddefwyr.
- Nid yw'r adolygiad o bolisi a darpariaeth y GCI wedi cael ei lywio gan blant a'u rhieni neu'u gofalwyr. Byddai hwn yn gyfle hollbwysig i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau werthuso effeithiolrwydd y polisi a'r ddarpariaeth.

## Rhagor o wybodaeth

---

Mae'r canlynol i'w gweld ar ein gwefan:

- [data arolygu, gan gynnwys methodoleg a ffeithiau cyd-destunol am y GCI](#)
- [rhestr termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.](#)